Penybryn

Yn wreiddiol, tŷ rheolwr y chwarel oedd Penybryn, a gafodd ei gynllunio gan Benjamin Wyatt.

Bu Dr Mary Davies yn byw yn Penybryn gyda'i gŵr William Cadwaladr Davies rhwng 1888 a 1905. Fe'i ganed yn Llundain ar Chwefror 27ain 1855 a bu farw yno ar Fehefin 22ain 1930.

Roedd yn mezzo soprano ac yn gantores opera enwog. Dyma lun swyddogol ohoni.

Roedd ei gŵr William Cadwaladr Davies, a briododd yn 1888, oedd cofrestrydd cyntaf Prifysgol Bangor. Gorfododd cyflwr gwael ei iechyd Mary i roi'r gorau i'w gyrfa ganu yn y 1890au a dychwelodd i Lundain yn dilyn ei farwolaeth yn 1905.

Yng ngefn y tŷ, roedd plac o'r cyfansoddwr Smetana, a gyfansoddodd yr opera "The Bartered Bride" gyda'r dyddiad 1895. A arhosoddd Smetana yn Penybryn yn ystod y cyfnod hwnnw?

Roedd llais Mary Davies yn gweddu'n arbennig i gerddoriaeth Berlioz ac yn 1880, canodd ran Marguerite yn Damnation of Faust gyda Halle yn arwain.

Bu hefyd yn canu rhan Mary yn L'Enfance de Christ yn y Crystal palace. Roedd ystod ei llais yn cwmpasu o B i C" ac roedd ganddi ymarweddiad rhagorol ar y llwyfan.